Rhif 28 **Yr Hen Wlad** Tachwedd 2000

## At Gymry Patagonia


**Cafwyd ymateb da iawn i'r Gystadleuaeth y tro hwn, yn cynnwys nifer yn cystadlu am y tro cyntaf. Diolch yn fawr i Rhys Llewelyn sydd yn un o'r athrawon Cymraeg yna, am ei frwdfrydedd ac nid yn unig am annog rhai o'r dosbarthiadau i gystadlu ond hefyd am anfon rhai atebion dros y We.**

**Yr ateb cywir cyntaf o'r het oedd eiddo Alwina Thomas, Buenos Aires, a chan ei bod yn Filflwyddiant mae hi'n cael llyfr *Y Fo - Guto* yn wobr.**

**Daliwch ati i gystadlu, diolch am eich cefnogaeth a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi.**

*Golygydd: Marian E. Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU E-bost Yr Hen Wlad yw: marian_elias@hotmail.com*

### Seren y Bore



Ymhob man, tywyllwch;
Ymhob man, tawelwch;
Nos fawr dros y byd.

Yna un golau'n symud
Trwy'r tywyllwch,
Trwy'r tawelwch,
Trwy nos fawr y byd.

Seren felen, sblash
O ddieithrwch yn nwfn y nos
Yn symud, ac yna'n aros.

Aros uwchben y baban,
Y cnawd bach newydd
Yn hen ddinas Dafydd,
Bethlehem.

Yn nos yr oesau,
Trwy dywyllwch blinderau,
Goruwch egrwch croesau
Llewyrchodd golau
Annileadwy y baban
O Bethlehem am byth. *Gwyn Thomas*

### Cyfarchion Nadolig



Er cynifer pryderon hyn o fyd
na foed ich, gyfeillion,
ond cael yr Wyl annwyl hon
yn felys ddiofalon.

*T. Arfon Williams*

# Cymraeg/Sbaeneg



Ar gais nifer fawr o bobl Y Wladfa cyhoeddir llyfr at y Nadolig sydd yn adrodd hanes yr ymfudo yna o Gymru. Ei arbenigrwydd yw fod y Gymraeg a'r Sbaeneg yn wynebu ei gilydd ar bob tudalen.Ceir atodiad Saesneg yn y cefn.

R. Bryn Williams a ysgrifennodd yr hanes hwn ac fe'i cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1965 gan Wasg Prifysgol Cymru, yn llyfryn Cymraeg a Saesneg. Ei ferch, Nan Griffith, sydd yn gyfrifol amdano ac wedi diweddaru'r hanes. Lowri Williams sydd wedi ei gyfieithu i'r Sbaeneg. Ceir llun gan Syr Kyffin Williams ar y clawr a'r cyhoeddwyr yw Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst.

# Bryn Terfel

Pan fydd Bryn Terfel, 35 oed, yn perfformio mewn operâu ar hyd a lled y byd bydd yn cael hwyl mor ardderchog fel y dywed y beirniaid amdano ei fod "y tu hwnt i feirniadaeth".

Yn y byd cerddorol ni welir yr un canwr opera yn llwyddo yn y byd canu poblogaidd ar yr un pryd. Ond pan ryddhawyd cryno ddisg Bryn Terfel yn gynharach eleni gwerthwyd 100,000 o gopïau, aeth ei ganeuon i ddwy siart - y siart bop a'r siart clasurol - ac yn ôl y papurau newyddion bydd ei record sengl ar frig y siartiau pop dros y Nadolig. Gorchestol yw'r gair.

Ymfalchïwn ac ymhyfrydwn yn y ffaith mai caneuon Cymraeg yw rhai o'r caneuon ar y ddisg, mai'r Gerddorfa Gymreig sydd yn cyfeilio ac mai yng Nghymru y recordiwyd y cwbl.

Yn ystod yr haf cynhaliodd ei ŵyl gerddorol ei hun yn y Faenol ger Bangor, a hynny yn yr awyr agored. Parhaodd am dridiau a bu'n llwyddiant ysgubol. Ymysg y cantorion yr oedd Marcello Alvarez, y tenor ifanc o Ariannin.

# Colli R.S. Thomas



Bu farw'r bardd R.S. Thomas yn 87 oed ym mis Medi. Fe'i hystyrir yn un o feirdd pwysicaf yr ugeinfed ganrif ac astudir ei waith ar hyd a lled y byd. Yn Saesneg yr ysgrifennodd ei farddoniaeth a dysgodd y Gymraeg yn 30 oed. Fel yr heneiddiai daeth yn fwyfwy ymwybodol o'i Gymreictod a mynegodd hynny yn ei farddoniaeth. Dyma a ddywedodd Yr Athro M. Wynn Thomas amdano, "Ganddo fo yr oedd ein cydwybod aflonydd bigog heriol ni." A dyma gerdd T.H. Parry-Williams i Fardd yn 1949:

Canodd ei gerdd i gyfeiliant berw ei waed;
Canodd hi, a safodd gwlad ar ei thraed.

Canodd ei gân yn gyfalaw i derfysg Dyn;
Canodd hi, ac nid yw ein llên yr un. T.H.P.-W.

# Neges Saunders Lewis

Bydd rhai o eiriau enwocaf Saunders Lewis i'w gweld yn y Cynulliad Cenedlaethol yn fodd i atgoffa'r aelodau o'u dyletswydd i Gymru.

Fe'u llythrennwyd gan Ogwyn Davies, Tregaron ar ddeunydd o bridd, tywod, llwch carreg, PVA ac acrylig ac meddai, "Bellach mae modd darllen y dyfyniad hefyd fel un sy'n dweud wrthym ni am edrych ar ôl daear ac ecoleg Cymru yn ogystal â'i hiaith." Mae'r gwaith yn eiddo i Lyfrgell Genedlaethol Cymru.


Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad,
I'w thraddodi i'm plant ac i blant fy mhlant
Yn dreftadaeth dragwyddol,
Ac wele'r moch yn rhuthro arni i'w maeddu.
Minnau yn awr galwaf ar fy nghyfeillion,
cyffredin ac ysgolhaig,
Deuwch ataf i'r adwy, sefwch gyda mi yn y bwlch
fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl y glendid a fu. S.L.

# Gŵyl Gerdd Dant Cymru

Bu dros 2,000 yn cystadlu yng Ngŵyl Gerdd Dant Cymru a gynhaliwyd ym Mangor ar Dachwedd 18. Bu'n llwyddiant mawr ac yr oedd canran uwch nag erioed o'r cystadleuwyr yn blant a phobl ifainc.

# Pla

Mae gwylanod a cholomennod yn bla mewn rhai rhannau o Gaerdydd, yn enwedig yn ystod yr haf pan fo pobl ac ymwelwyr yn eu bwydo.



Pan godwyd Stadiwm y Mileniwm yno y llynedd rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd brynu rhan o'r pafin gerllaw a rhoi eu henwau a negeseuon arno. Erbyn hyn mae'r rheini'n prysur ddiflannu gan fod yr adar yn maeddu yno.

Ateb Cyngor Sir Caerdydd i'r broblem yw'r hebog a welir yn y llun. Mae'r hebog yn elyn naturiol i'r golomen a'r wylan a'i ddyletswydd yn y Stadiwm yw eu dychryn ymaith. Y gobaith yw defnyddio'r un dechneg i gael gwared â'r broblem mewn rhannau eraill o'r ddinas.

# Tystiolaeth DNA

Gallai tystiolaeth DNA newydd fod yn gymorth i ddarganfod llofrudd dwy ferch ifanc 27 mlynedd yn ôl.

Cafwyd hyd i Pauline Floyd a'i chyfeilles Geraldine Hughes wedi eu curo a'u tagu mewn coedwig ger Castell Nedd ym mis Medi 1973.


Credid eu bod wedi cael lifft mewn car ar ôl bod mewn dawns. Methiant fu ymgais yr heddlu i ddod o hyd i'r llofrudd er iddynt holi 30,000 o bobl gan gynnwys 10,000 o yrwyr. Y gobaith yn awr yw canfod y llofrudd o'r wybodaeth a gasglwyd trwy wneud defnydd o'r technegau fforensig chwyldroadol sydd ar gael.

# Moch yn y winllan

Ar Dachwedd 20 daeth llu o bobl i Fangor i gefnogi ymgyrch Cylch yr Iaith i ymbil ar awdurdodau Radio Cymru ac S4C i atal y Seisnigo cyson ar eu rhaglenni ac i godi'r safon.

Pobl ifainc oedd y mwyafrif llethol - sydd yn tanseilio'r honiad mai pobl oedrannus yw aelodau Cylch yr Iaith ac yn profi fod ar ieuenctid angen rhaglenni amgenach na'r malu awyr plentynnaidd a'r canu pop di-baid [a dogn o hwnnw yn Saesneg] am ran helaeth o bob dydd. Cafwyd cyfarfod o safon aruchel yn cynnwys cyfraniadau caboledig gan Ysgol Glanaethwy a beirdd o fri. Mor braf fuasai hi arnom pe bai Radio Cymru yn darlledu deunydd o'r ansawdd uchel hwn a wnâi i ni i gyd adnewyddu ein hysbryd ac ymhyfrydu yn ein Cymreictod yn hytrach na goddef rhyw botes troednoeth [cawl heb gig ynddo] a gorfod diffodd ein setiau radio mewn anobaith a diflastod. Ond diolch am raglenni radio o'r Wladfa yn fuan.

# Afal prin



Mae afal nad oes mo'i debyg yn y byd wedi ei ddarganfod yn tyfu ar Ynys Enlli.

Pan aeth Ian Sturrock yno yn ddiweddar sylwodd fod "streipiau pinc a rhigolau arnyn nhw" ar yr afal ac anfonodd un ohonynt at Dr Joan Morgan, yn Lloegr, un o arbengiwyr amlycaf y byd afalau.

Yn ei barn hi "hwn oedd yr afal prinnaf yn y byd." Credir mai mynaich oedd yn byw ar yr ynys yn y drydedd ganrif ar ddeg a blannodd y coed afalau yno ac yn ôl pob golwg nid oes yna haint o gwbl ar yr afalau. Mae hynny'n anarferol i goed ffrwythau yng Ngogledd Cymru.

# Gwersyll yr Urdd

Dathlwyd hanner canmlwyddiant sefydlu Gwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn, Llanuwchllyn, ar ddechrau Tachwedd. Cafwyd dawns fawr, agorwyd stiwdio fodern yno a darlledwyd yr achlysur ar y radio.

Ymysg y llu ymwelwyr drannoeth, ar Dachwedd 5, yr oedd aelodau o ddosbarth Ysgol Sul Capel Uchaf, Clynnog Fawr. Cawsant dreulio'r prynhawn ym Mhwll Nofio Glan-llyn ac awr arall yn chwarae'r gêm bowlio 10 ar ôl treulio'r bore mewn gwasanaeth crefyddol ar gyfer ieuenctid yng Ngholeg y Bala.

'Roedd ganddynt ddiddordeb arbennig yn y cerflun o Thomas Charles yn y dref ei hun gan iddynt yn gynharach yn yr haf fynd i weld olion cartref Mari Jones yn Llanfihangel y Pennant a gerddodd 26 milltir oddi yno dros y mynydd i'r Bala i brynu Beibl gan Thomas Charles.

# Swyn

Yn y rhifyn cyfredol o'r *Bigwn*, papur bro Dinbych a'r cylch, mae Swyn Spencer yn adrodd hanes y tri mis bythgofiadwy a dreuliodd yn Y Wladfa yn ddiweddar. Myfyriwr ydyw yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru Bangor ac fel rhan o'i chwrs gradd Cynllunio a Rheoli'r Amgylchedd y daeth i'r *Instituto Nacional de Tecnologia Agrapercuaria* yn Esquel.

# Unigryw

Hyd at ddwy flynedd yn ôl yr oedd Y Parchedig Bill Parry yn weinidog ar dair eglwys efengylaidd ger ei gartref yng Nghroeserw. Ond pan gyhoeddodd y gweinidog barfog 60



oed ei fod am fyw fel menyw cafodd aelodau ei eglwysi gryn sioc.

Rhoddodd gryn sioc i bobl ardal Caernarfon hefyd gan mai oddi yno yn y saithdegau y cychwynnodd ef a'r wraig ar fordaith i Awstralia a hynny mewn bad glanio bregus. Mor fregus, yn wir, nes glanio yn Ninas Dinlle gerllaw ar y noson gyntaf a pheri iddynt roi'r gorau i'r syniad. Ymhen rhai blynyddoedd wedyn yr ymunodd ef â'r weinidogaeth.

Penderfynodd yr eglwysi beidio â derbyn ei wasanaeth ar ôl y cyhoeddiad hwn ond cafodd gefnogaeth ei wraig a'i blant ac mae'n parhau i fyw'n gytûn gyda'i wraig.Ei dymuniad ar ôl cael y llawdriniaeth oedd ymuno â Merched y Wawr ond oherwydd gwrthwynebiad y rheini gorfu iddi gysylltu â'r Comisiwn Cyfle Cyfartal. O ganlyniad mae yn awr wedi talu ei thâl blynyddol o £10 ac wedi ymaelodi â changen y Lôn Las yng Nghwm Tawe. Ei henw newydd yw Dian Parry.

Ym mis Gorffennaf cafodd iawndal o ganlyniad iddi gael ei hatal rhag sefyll arholiadau ar gyfer cwrs harddwch yng Ngholeg Abertawe. Daeth i gytundeb gydag awdurdodau'r coleg y tu allan i'r llys a derbyniodd £6,000 ganddynt.


---

Liliana Freeman, Comodoro, Omar Roberts a Gladys Jones, Trefelin a Marcelo Gaviratti, Porth Madryn, yng



Ngŵyl y Glaniad yn Y Bala ar Orffennaf 29 eleni. [Llun Gwilym Roberts]

# Chwarel y Penrhyn



Cafwyd gwasanaeth i gofio canmlwyddiant dechrau streic Chwarel y Penrhyn ym Methesda ar Dachwedd 11eg a dadorchuddiwyd cofeb yno.

Yr oedd Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad, ymysg y gwahoddedigion a bu Côr Meibion y Penrhyn a Band Deiniolen yn eu diddanu.

Streic Fawr y Penrhyn oedd y streic hiraf erioed ym Mhrydain. Bu dros dair mil o chwarelwyr ar streic am dair blynedd a chollodd mil o'r gweithwyr eu gwaith yno am byth. Dechreuodd trwy i'r perchennog, Yr Arglwydd Penrhyn, wrthod i swyddogion yr undeb gasglu taliadau gan y gweithwyr.

# Mathew Rhys

Ar ôl ymddangos yn y ddrama *The Graduate* yn West End, Llundain efo'r actores Kathleen Turner bu'r actor ifanc Mathew Rhys o Gaerdydd a'i gariad o Iwerddon yn ymweld â'r Wladfa ym mis Awst gan aros am ychydig ddyddiau yn y Gaiman.

Mae galw mawr am wasanaeth yr actor ifanc dawnus hwn ac ar hyn o bryd mae'n ffilmio yn Iwerddon. Cyfaill iddo yw'r actor ifanc Ioan Gruffudd yntau hefyd yn dod o Gaerdydd a'r ddau wedi bod yn gyd-ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Gymraeg Glantaf yn y brifddinas.

Gwilym Roberts

# Cymraeg ar y We

Mae Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn cynnig cyrsiau Cymraeg i fyfyrwyr drwy gyfrwng y rhyngrwyd. Mae'r cwrs ***Dysgu Cymraeg ar y We*** a ***Camu at y Gymraeg*** eisoes wedi denu dros 600 o fyfyrwyr o dros 25 o wledydd.

Ond mae'r cynllun yn codi pryderon yn lleol gan fod llai o fyfyrwyr yn mynychu'r Coleg eleni. Llambed yw'r brifysgol leiaf ym Mhrydain gyda rhwng 1,200 a 1,500 o fyfyrwyr. Yn ôl yr awdurdodau dylai prifysgolion ddenu rhwng 12,000 a 14,000 o fyfyrwyr.

Rhif y Wefan yw: http://cymraeg.lamp.ac.uk

# Rhannu Prifathro

Mae dwy ysgol gynradd ar Ynys Môn wedi eu rhoi dan ofal un prifathro fel arbrawf.

Bydd Huw Thomas yn gadael Ysgol Gynradd Dwyran am un o'r gloch bob prynhwn ar ôl bore o waith yno. Yna, ymhen ychydig funudau, bydd yn cyrraedd Ysgol Gynradd Niwbwrch ddwy filtir i ffwrdd lle mae o hefyd yn brifathro.

Digwyddodd hyn am fod cyn lleied wedi cynnig am swyddi prifathrawon yno. Yn ôl pob golwg aeth y gwaith gweinyddol sydd yngŷn â swydd prifathro yn faich ar athrawon mewn ysgolion bach gwledig a theimlant nad ydynt yn cael rhoi'r sylw dyladwy i'r plant.

# Caneuon ffydd

Mae cymaint o alw am y Llyfr Emynau cydenwadol newydd nes y gorhiriwyd ei gyhoeddi hyd at fis Ionawr 2001.

Archebwyd 53,000 o gopïau gan y gwahanol eglwysi a chapeli ac mae angen tua 20,000 arall ar gyfer y siopau. Mae hyn yn torri pob record am lyfr Cymraeg diweddar. Bydd dros 900 o emynau Cymraeg yn y gyfrol, tua 80 o rai Saesneg a thros 600 o donau.

# Bwyta ysgewyll

Dim ond 'sgewyll (neu sbrowts) mae gŵr o Aberdâr yn ei fwyta. Mae'n eu cael i frecwast, cinio a the - yn amrwd (heb eu coginio) gan amlaf.

I golli pwysau y dechreuodd Geraint Benney eu bwyta ac erbyn hyn mae wedi colli 20 pwys. Maent mor flasus fel na all roi'r gorau iddynt.



Llun: Geraint Benney yn dathlu pen ei flwydd trwy chwythu cannwyll ar ben powlen o 'sgewyll.

## Y Cynulliad

Nid fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru y cyferchir Rhodri Morgan bellach ond fel Prif Weinidog y Cynulliad. Gweinidogion ac nid Ysgrifenyddion yw gweddill y Cabinet. Fodd bynnag, mae Tŷ'r Cyffredin yn Lloegr yn erbyn yr enwau newydd hyn ac yn parhau i'w galw wrth yr enwau gwreiddiol.

# Cofio Guto

Un o'r llyfrau a gyhoeddwyd ar gyfer Y Nadolig




yw *Y Fo - Guto: Guto Roberts - un o gewri gwerin gwlad* gan Wasg Carreg Gwalch. Mae'n cynnwys byrgofiant gan ei gyfaill, Dr Merdydd Evans, ond gwaith Guto ei hun a geir yn bennaf, yn englynion, cerddi, ysgrifau, sgyrsiau radio a llythyrau. Yn ystod ei flynyddoedd olaf cofnododd bob mathau o ddigwyddiadau â chamera fideo a cheir rhestr ohonynt ar y diwedd, yn cynnwys sgwrs â Fred Green, ymweliad gan Gôr Esquel, cyhoeddi *Edau Gyfrodedd* (Irma Hughes de Jones) a rhai cyfarfodydd Gŵyl y Glaniad. Y rhaglen olaf un iddo ei chofnodi oedd gefeillio Porth Madryn a Nefyn, 1998.

# Cymraeg yn Ewrop

Mae rhai prifysgolion yn Ewrop yn rhoi'r gorau i ddysgu Cymraeg oherwydd diffyg cyllid.
"Mae dros 100 o fyfyrwyr wedi bod yn dysgu Cymraeg gyda mi yma yn Berlin", meddai Dr Sabine Heinz "ond 'rwyf bellach yn dysgu fy nosbarth olaf o fyfyrwyr Cymraeg ym mhrifysgol Berlin. Credaf fod Cymru'n cael ei hanwybyddu i raddau helaeth am nad ydi hi'n wlad annibynnol... Dydi'r Cyngor Prydeinig ddim yn gwneud llawer i hybu Cymru,"meddai.
Ysgrifennodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg at y Cyngor yn ddiweddar yn mynegi pryder wedi i diwtor Cymraeg ym Mhrifysgol Lublin yng Ngwlad Pwyl gwyno fod ei adran yn wynebu trafferthion o ganlyniad i'w penderfyniad i atal cymorth ar gyfer dysgu Cymraeg.


Mae 60 o fyfyrwyr yn dilyn cyrsiau Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Vienna, yn cynnwys Cymraeg a Llydaweg cyfoes a chyflwyniad i lenyddiaeth Gymraeg yn ogystal â Hen Wyddeleg, hanes cynnar ac archaeoleg. Ond mae cwtogi ar wario ar addysg yno hefyd ar hyn o bryd, yn arbennig ar bynciau lleiafriol.

Tachwedd 2, 2000

# Incwm ffermwyr

Yn ôl y ffigurau a gyhoeddwyd ar Hydref 13 mae incwm ffermwyr wedi gostwng 90% yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
Eleni tua £8,000 fyddai cyfartaledd incwm fferm deuluol 500 acer.
Ond byddai elw yr un fferm bum mlynedd yn ôl yn £80,000.

## Rhoi'r gorau i werthu llaeth



Erbyn hyn 4,000 sydd yn weddill o ffermwyr llaeth Cymru.
"Does yr un wythnos yn mynd heibio nad oes yna hysbysebion yn ymddangos yn sôn am arwerthiant ar ffarm laeth neu fod buches odro'n cael ei gwerthu," meddai Bob Parry, llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, yn Sioe Laeth Cymru yng Nghaerfyrddin ar Hydref 17.
"Mae'n warthus mai 8 geiniog y peint a gaiff y cynhyrchwyr am weithio 100 awr yr wythnos tra bo'r siopwr ar y llaw arall yn talu 42 ceiniog. Mae rhywun yn gwneud arian. Ni ddylai ffermwyr gael eu gorfodi i roi'r gorau iddi gan archfarchnadoedd sy'n defnyddio'u grym i gadw'r prisiau mor isel â phosib."

# Y daeargi Cymreig

Yn ystod y degawd diwethaf daeth y daeargi Cymreig yn bencampwr bridiau cŵn Prydain ragor nag unwaith.



*Llun: Yr Herald*

Gan mlynedd yn ôl aed â'r daeargi i America a bu mor boblogaidd yno fel ci sioe nes y cyhoeddwyd llyfr eleni i ddathlu'r achlysur.
Un sydd wedi ymddiddori yn y cŵn hyn yw Ioan Mai y gwelir llun diweddar ohono yma efo Sheba, ei ddaeargi a fu'n bencampwr Crufts (Sioe gŵn fwya'r byd) yn Llundain, yn 1986.

# Yng Nghlust y Teleffôn

**Llongyfarchiadau:**

◆i **Hector Ariel**, Y Gaiman ar ei briodas â **Sonia** yn Esquel ar Dachwedd 3ydd ac yn Y Gaiman ar Dachwedd 11eg.

◆a phen-blwydd hapus iawn i **Tommy Davies**, **Hyde Park**, ac yntau yn 93 oed ar Dachwedd 5, i **Ada Jones de Griffiths**, Y Gaiman yn 90 oed ar Dachwedd 6, ac i **Meillionen Davies**, Y Gaiman yn 90 oed ar Dachwedd 10.

◆ **i Arel Hughes,** chwaer Irma Hughes de Jones, ar ennill cadair Eisteddfod Y Wladfa.

◆i **Walter Ariel Brooks**, Comodoro Rivadavia, ar lwyddo i sicrhau gradd A yn ei arholiad Cymraeg Uwch yn y Ganolfan Iaith yng Nghaerdydd a hynny ar ôl astudio'r Gymraeg am flwyddyn a hanner yn unig.

◆a'r dymuniadau gorau i **Ximena Roberts** o Esquel i astudio yng Ngholeg Harlech. Mae hi'n gyfnither i Liliana Williams, (gwraig Dewi Evans erbyn hyn), sydd hefyd yn dod o Esquel.

◆i **Euryn Owen** ar ei ysgrif drylwyr (a'r llun) ar *Hanes Peiriannau Dyrnu* yn y rhifyn diweddaraf o'r *Drafod*. Mae hwn yn gofnod pwysig iawn a dyma'r math o fanylion y byddwn ni yma wrth ein boddau yn eu darllen am eu bod yn agor cwr y llen ar wahanol agweddau ar fywyd y Wladfa trwy eich llygaid chwi.

◆Mae yna gystadleuaeth isod i recordio sgwrs â rhywun dros 80 oed. Gofynnodd Cymdeithas Cymru-Ariannin i mi annog rhai ohonoch i ymgeisio. Dibynna'r sgwrs ar yr holwr a'r sawl a holir, wrth gwrs, ac nid fy lle i yw dweud sut i fynd ati. Yn fy marn i y gobaith yw y buasai'r sgwrs nid yn unig yn ddiddorol ond ar yr un pryd yn agor cwr y llen ar ryw agwedd ar fywyd y Wladfa boed yn baratoi bwyd; yn drefnu asado; yn disgrifio paratoi ar gyfer taith yn yr amser à fu; yn aredig ac yn manylu ar y gwahanol fathau o gwysi; yn hau; yn dyfrio; yn cymdeithasu; yn magu ceffylau; yn dywydd mawr; yn fagu teulu; yn dyfu afalau a ffrwythau; yn brofiadau anghyffredin.

◆edrychir ymlaen yn eiddgar yma yng Nghymru at weld 8 rhaglen Dai Jones *Cefn Gwlad Patagonia* bob nos Wener fwy neu lai o Dachwedd 24 ymlaen : Emrys Jenkins; Billy a Derwyn; Onnen a Benito; Bobi Jones; Ronnie, Bronmai a Tommy; Merched Penderyn; Vincent Evans; Elfyn ac Amanda.

## ???

Chwiliwch am yr atebion cywir yn y papur hwn. Os anfonwch at y Golygydd erbyn Ionawr 5, 2001 (gan roi eich enw) rhoir eich ymgais mewn het a'r ymgais gywir gyntaf a dynnir ohoni gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o'r *Hen Wlad*.

1. Pwy a gerddodd ymhell?
2. Am faint o amser y parhaodd y streic?
3. Beth sydd i ddigwydd ar ddydd Ffwl Ebrill?
4. Mae o ar y brig.
5. Ym mhle mae'r goedwig?
6. Pa lyfr sydd wedi gwerthu'n dda cyn ei gyhoeddi?
7. Pwy sy'n rhoi potes troednoeth i ni?
8. Beth sydd yn brin?
9. Arlunydd enwog a fu yn Y Wladfa.
10. Dau lyfr gan Wasg Carreg Gwalch.

## Tasg arall

I'r rhai nad ydynt am roi cynnig ar y gystadleuaeth uchod, beth am anfon ataf i ddweud pwy a lefarodd y geiriau hyn ac ym mha ran o'r Beibl y'u ceir? Ond cewch ateb y ddwy gystadleuaeth, os dymunwch, wrth gwrs!

1. *Os oes gan rywun glustiau i wrando, gwrandawed.*
2. *Rho dy wregys a gwisg dy sandalau.*
3. *Pam yr wyt yn torri dy galon?*
4. *Beth bynnag a geisi, hyd hanner fy nheyrnas, fe'i cei.*
5. *Adeilada imi yma saith allor, a darpara imi saith bustach a saith hwrdd.*
6. *Y mae gan ambell ddyn ddigon o ffydd i fwyta pob peth, ond y mae dyn arall, gan fod ei ffydd mor wan, yn bwyta llysiau yn unig.*
7. *Peidiwch â'i ladd; rhowch y plentyn byw i'r gyntaf; honno yw ei fam.*
8. *Bydd yr Oen sydd yng nghanol yr Orsedd yn eu bugeilio hwy, ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd, a bydd Duw yn sychu pob deigryn o'u llygaid hwy.*
9. *Fe blannodd dyn winllan.*

## Colli Mair Hughes Jones

Chwith yw cofnodi marw Mrs Mair Hughes Jones, Llanuwchllyn, ar drothwy pen ei blwydd yn 78 oed. Cydymdeimlir â'i phriod, Mr Arthur Jones.Cyn ymddeol bu'r ddau yn cadw siop y pentref yn Llanuwchllyn a hir y cofir am eu caredigrwydd yno. Bu'r ddau yn y Wladfa droeon a mynych y rhoddasant groeso twymgalon i bobl Y Wladfa yn eu cartref. Roedd yn chwaer i Mrs Elizabeth Jones, Braich Ceunant, Llanuwchllyn, yn chwaer yng nghyfraith i'r diweddar Tom Jones, ac yn fodryb i Aur Roberts.

## CYSTADLEUAETH

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Sir Ddinbych a'r Cyffiniau, Awst 2001 i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes ac yn dal i fyw yn Ariannin.

**Sgwrs ar dâp, oddeutu 20 munud o ran hyd, gyda rhywun dros 80 oed. Dylid cychwyn gyda gair o gefndir er mwyn rhoi'r sgwrs yn ei chyd-destun.**

Beirniaid: Gruff ac Eifiona Roberts
Gwobr: £200 (Gwobr Goffa Shân Emlyn)
Dyddiad cau: Ebrill 1 2001